

Lleisiau

Cyfrol 2, Hydref 2021

o'r pandemig



Pum cyfweiliad gydag arweinyddion
agweddau ar draws y sector



Cynnwys

Cyflwyniad	3
Gweithredu Gwirfoddol Leeds	4
Achub y Plant y DU	8
Mencap	12
Turn2us	16
Citizens UK	20
Beth nesaf?	24

Golygyddion

Zoë Anderson, Julia Parnaby, Anne-Mari Hall, Jo Woodall

Lluniau clawr: Mencap, Save the Children UK and Voluntary Action Leeds

Cyflwyniad

Dechreuodd y gyfres Lleisiau o'r Pandemig gan ganolbwyntio ar waith ymarferol. Edrychodd ein cyfrol gyntaf ar sut y trawsnewidiodd elusennau a grwpiau cymunedol eu hunain i ateb heriau Covid-19. Ond wrth i'r argyfwng barhau, prin oedd y materion presennol i'r sector, a chododd gwestiynau ehangach. Yn yr ail gyfrol hon, gofynnwn beth sy'n digwydd nesaf.

Hyd yn oed yn nyfnder yr argyfwng, bu cyfleoedd i arianwyr, elusennau a chymunedau: y cyfle i wneud newidiadau parhaol a beiddgar i'r ffordd y maent yn gweithio. Yn y gyfrol newydd hon, mae Thomas Lawson o Turn2us yn tynnu sylw at heriau cydraddoldeb a thegwch, gan edrych yn onest ar bŵer a sut y gallwn ei ddefnyddio i wneud cymdeithas decach. Mae Natsayi Sithole o Save the Children UK yn disgrifio pam mae lleoliaeth yn bwysig, a sut y gall sefydliad cenedlaethol ddod o hyd i'w le yn yr ecosystem heb gysgodu neu ystumio gwaith grwpiau bach, llawr gwlad. Mae Edel Harris a Ciara Lawrence o Mencap yn esbonio pwysigrwydd llais: pwy sy'n cael eu clywed, a sut y gall y sector gwirfoddol gymryd ei sedd wrth y bwrdd ar gyfer cynllunio strategol a gwneud penderfyniadau.

Rydym hefyd yn edrych ar rôl bwysig seilwaith lleol o ran galluogi gwaith rheng flaen. Mae Richard Jackson yn esbonio sut y helpodd Voluntary Action Leeds i sianelu 8,000 o wirfoddolwyr newydd i rolau ystyrlon – gan leddfu'r pwysau ar sefydliadau unigol a chefnogi'r system ehangach o asiantaethau ar draws y ddinas. O Citizens UK, mae Prif Swyddog Gweithredol Matthew Bolton ac arweinwyr lleol Fiona Tasker a Salma Ravat yn rhannu eu gwaith i feithrin gallu pobl o ardaloedd difreintiedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a'u cymunedau.

Ar draws yr holl gyfweiliadau, rydym wedi clywed sut yr oedd sefydliadau'n chwilio am atebion wrth iddynt lywio heriau'r argyfwng. Dyma syniadau ar sut y gall y sector ymateb a thyfu i gwrdd â dyfodol anrhagweladwy: y cwestiynau y mae angen iddo eu gofyn, a'r newidiadau y gall eu gwneud i'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.



Slung Low, gwirfoddolwyr

VAL

Gweithredu Gwirfoddol Leeds



Sgwrs gyda Richard Jackson

Ysgogodd Covid-19 lif o gefnogaeth. Edrychodd 200,000 o bobl ar dudalennau gwirfoddoli **Gweithredu Gwirfoddol Leeds**, sefydliad seilwaith sy'n cefnogi gweithredoedd da yn y ddinas. Mae hynny cyfwerth â chwarter poblogaeth Leeds. "Mae'r ffordd mae pobl wedi ymateb wedi bod yn syfrdanol," meddai Richard Jackson, Prif Swyddog Gweithredu Gwirfoddol Leeds. "Dwi'n hynod o falch o'r ddinas."

Ymateb digynsail

I Richard, roedd graddau'r gwirfoddoli wedi "newid golwg yr hyn a wnaethom fel sefydliad." Cynigiodd 8,000 o bobl eu hunain – mwy nag oedd modd ddod o hyd i rolau iddyn nhw yn syth. O ganlyniad, cafwyd "rhywfaint o rwystredigaeth gwbl ddealladwy gan y bobl nad oedden nhw'n cael eu defnyddio'n ddigon cyflym."

Roedd graddau'r gwirfoddoli "**wedi newid golwg yr hyn a wnaethom fel sefydliad.**"

Richard Jackson, VAL

Felly edrychodd y sefydliad ar draws y sector, gan weithio i fwydo'r gwirfoddolwyr i'r 1,500 o sefydliadau yn Leeds a oedd yn ymateb i Covid-19. Helpodd gyda'r gwaith archwilio cefndir, fel gwiriadau trwyddedau gyrru, a thywys pobl trwy'r broses. "Roedd gennym ffurflen gofrestru ar-lein, gyda sesiwn sefydlu a sesiwn holi ac ateb ar y diwedd, i wneud yn siŵr eu bod yn deall yr hyn oedd wedi cael ei ddangos iddyn nhw."

Aethpwyd trwy'r rhestrau o wirfoddolwyr fesul ward, a'u cysylltu â sefydliadau lleol. "Broceriaeth oedd ein rôl ni: dod â gwirfoddolwyr i mewn, sicrhau bod ganddyn nhw'r profiad roedden ni'n chwilio amdano, ac yna eu cyfeirio at y sefydliad mwyaf priodol" - naill ai'r un agosaf, neu i wneud y defnydd orau o sgiliau penodol, gan ddefnyddio gwirfoddolwyr dwyieithog "lle roedd mwyaf eu hangen".

Helpu elusennau i helpu ei gilydd

Nid oedd rhai o'r elusennau'n barod ar gyfer cynifer o bobl newydd. Darparodd Gweithredu Gwirfoddol Leeds aelod penodol o'i staff, gyda "chanllawiau, cefnogaeth a phecyn – deunyddiau sefydlu, rhestrau gwirio, popeth roedden nhw ei angen i weithio gyda'r gwirfoddolwyr." Roedd cymorth yn arbennig o bwysig i sefydliadau llai o faint, nad oedd ganddynt efallai berthynas sefydledig â'r sector cyhoeddus, ac yr oedd "angen iddyn nhw ddatblygu eu seilwaith mewnol a magu hyder."

Gofynasant hefyd i sefydliadau helpu ei gilydd, er enghraifft drwy roi benthyg rheolwyr gwirfoddolwyr i'w gilydd. "Mae hynny'n parhau. Roedd sefydliadau ar draws y wardiau eisiau cydweithio i roi ysbaid i'w gilydd, er mwyn sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu."

"Bydd anghenion sylfaenol pawb yn y ddinas yn cael eu diwallu."

Richard Jackson, VAL

Roedd yn golygu cynnal cysylltiadau agos. Sefydlodd Cyngor Dinas Leeds "yr hyn a alwyd y grŵp gwirfoddoli craidd - yr holl bartneriaid allweddol, o'r gwahanol asiantaethau," oedd yn cyfarfod pob dydd ar ddechrau'r pandemig. "Yn y bôn, roedd y grŵp yn gofyn, 'Sut mae'n mynd? Ydy'r canllawiau hyn yn iawn? Pa anawsterau mae'r grwpiau hyn yn eu hwynebu? Sut ydyn ni'n datrys hynny?'"

"Ni oedd y staff ystafell gefn... y rhai sy'n mynd i'r afael â'r pethau hynny, fel nad oes rhaid i neb arall boeni amdany'n nhw." Mae'r parodrwydd hwnnw i ddod ynghyd a datrys problemau wedi "newid y ffordd y bydd ein perthnasoedd yn gweithio yn y dyfodol. Dyna yw fy ngobaith, beth bynnag."

Mae hefyd yn canmol hyblygrwydd arianwyr, "yn rhoi caniatâd i sefydliadau ail-gyfeirio eu harian i le roedd ei angen mwyaf. Gwnaeth hynny newid enfawr i'r hyn yr oeddem ni'n gallu ei wneud, a pha mor gyflym yr oeddem ni'n gallu ei gyflawni."

#TogetherLeeds: ysbrydoli gweithredu

Lleoli gwirfoddolwyr oedd dechrau'r sgwrs, gyda chylchlythyr newydd i rannu gwybodaeth a chyfleoedd. Trwy'r cyfryngau cymdeithasol, rhannodd Gweithredu Gwirfoddol Leeds astudiaethau achos i dynnu sylw at rolau gwahanol ar draws y ddinas. Defnyddiodd yr hashnod **#TogetherLeeds** i feithrin positifrwydd, gan ddangos sut y gallai pobl gynorthwyo eu cymunedau.

“Rydyn ni’n cyfeirio at #TogetherLeeds yn ein holl gyfathrebiadau, ac roeddem ni’n annog eraill i wneud yr un peth. Cawsom ni nifer anhygoel o astudiaethau achos cryno o’r hyn yr oedd pobl yn ei wneud. Dechreuodd y ddinas sylweddoli bod yr hyn oedd yn digwydd ar lawr gwlad yn beth anhygoel.” Mae’r gydnabyddiaeth yn bwysig: i Richard, mae sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod nhw’n cael eu gwerthfawrogi a bod ganddyn nhw rolau ystyrion wedi bod yn hanfodol.

Mae positifrwydd yn wers allweddol. “Ar lefel genedlaethol, negyddol oedd y newyddion gan fwyaf – yr heriau a’r pryderon, faint o bobl oedd yn marw. Roedd yr ymateb lleol llawer yn fwy cadarnhaol: y gwaith gwych sy’n digwydd, faint o bobl sy’n cael eu helpu, y straeon cymdeithasol, doniol roedd pobl wedi dod ar eu traws. Llawer mwy o ‘rydyn ni yma i’ch helpu chi, rydyn ni’n mynd i wneud yn siŵr eich bod chi’n iawn.”

Mae Richard yn dadlau y dylid cynnwys hynny mewn negeseuon. Dylai cyfathrebiadau “ganolbwyntio ar ddatrysiadau. Dydyn nhw ddim yn canolbwyntio ar ba mor wael yw popeth, maen nhw’n canolbwyntio ar ba mor wych yw hi i fyw yn y ddinas hon, y gwaith rhagorol mae pobl yn ei wneud, a sut y gallwch chi fod yn rhan o hynny. Mae yna optimistiaeth sy’n dweud, ‘Rydyn ni yng nghanol argyfwng, ond byddwn ni’n dod allan ohoni, yn well na phan aethon ni i mewn iddo.’”



Hamara hyb, gwirfoddolwr

Arweinyddiaeth o’r brig i lawr neu arweinyddiaeth leol

Pan ddechreuodd yr argyfwng, roedd yn rhaid i Weithredu Gwirfoddol Leeds symud yn gyflym. “Os oedd rhywun yn dweud, ‘Mae hynny’n ormod inni,’ aethom at y sefydliad nesaf a gofyn, ‘Allwch chi ei wneud yn ei le?’” Wrth edrych yn ôl, erbyn hyn mae Richard yn galw hyn yn ddull o’r brig i lawr - “heb fod yn ddigon gwahaniaethol ac o dan arweinyddiaeth leol ag y dylai fod.” Ond mae hynny wedi newid dros amser, gyda mwy o ffocws ar bartneriaethau.

Mae systemau lleol yn hanfodol, gan weithio “fesul cymdogaeth.” Chwaraeodd sefydliadau dibynadwy lleol - fel rhwydwaith i bobl dros 60 oed a Hamara, canolfan gymunedol sy’n gweithio gyda’r gymuned Fwslimaidd leol - ran arweiniol yn yr ymateb i’r pandemig. “Roedd rhai ohonyn nhw’n fawr - darparwyr gwasanaethau mawr. Ond roedd pobl yn eu hadnabod, yn gwybod bod y gwasanaethau roedden nhw’n eu cynnig yn rhai da. Doedden ni ddim eisiau i bobl ymgysylltu â system di-wyneb nad oedden nhw yn ei ddeall na’i hadnabod. Roedd yr ymddiriedaeth yn hollbwysig.”



Oblong hyb, gwirfoddolwr

Heb wybodaeth lawr gwlad, roedd perygl na fyddai gwasanaethau'n cydweddu: mae'n nodi "parseli bwyd heb unrhyw ystyriaeth o alergeddau, dim cynnig diwylliannol. Mae hon yn wers bwysig iawn imi: peidiwch â cheisio gwneud pethau lleol o lefel genedlaethol."

Er i'r sefydliad weithredu fel brocer trwy'r pandemig, "Doedd gennyn ni ddim y capasiti i reoli'r nifer honno – daethon ni'n dagfa yn y system." Dechreuodd symud at "seilwaith gwirfoddoli sy'n fwy o fater o unigolion yn cysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau, a ninnau'n camu'n ôl o hynny – rheoli'r broses o bell, fel bod y perthnasoedd hynny'n dod yn fwy organig."

"Mae yna optimistiaeth sy'n dweud rydyn ni yng nghanol argyfwng, ond byddwn ni'n dod allan ohoni, yn well na phan aethon ni i mewn iddo."

Richard Jackson, VAL

Ar ddechrau'r pandemig:

edrychodd

200,000

o bobl ar dudalennau gwirfoddoli VAL, cofrestrodd

8,000

o bobl i wirfoddoli

Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer y dyfodol? "Ydy Gweithredu Gwirfoddol Leeds yn camu'n ôl a gadael i'r cymorth hwnnw ddigwydd yn lleol? Yn hytrach nag ein bod ni'n gorff sy'n cael ei dynnu i mewn i ddarparu cymorth sgiliau proffesiynol." Mae Richard hefyd eisiau cynnwys y grwpiau cyd-gymorth a grwpiau dan arweiniad gwirfoddolwyr newydd, ynghyd â chymunedau buddiant.

Mae'n pwysleisio rhoi blaenoriaethau unigol o'r neilltu er mwyn meddwl yn ehangach, "o safbwynt system gyfan. Gwneud penderfyniad sy'n dweud, "Bydd anghenion sylfaenol pawb yn y ddinas yn cael eu diwallu. A bydd y system yn sicrhau bod hynny'n digwydd." Roedd hynny'n beth anhygoel."

Mae'r stori'n parhau



doinggoodleeds.org.uk



Achub y Plant y DU

Achub y Plant y DU

Sgwrs gyda Natsayi Sithole

“I ni, ystyr lleoliaeth yw symud adnoddau, gallu a’r pŵer i wneud penderfyniadau yn agosach at fywydau pob dydd plant,” esbonia Natsayi Sithole, Pennaeth Datblygu Busnes a Strategaeth ar gyfer Effaith yn y DU, Achub y Plant y DU.

Er ei bod yn cydnabod bod hyn yn her, yn enwedig yng nghyd-destun pandemig a dirwasgiad, mae’n gyffrous am y cynnydd mewn meddwl am leoliaeth a’r hyn y gall ei olygu i’r sector.

“Mae wedi bod yn newid sylfaenol.”

Natsayi Sithole, Achub y Plant y DU



Yn ddiweddar mae’r elusen wedi culhau ei ffocws er mwyn sicrhau’r canlyniadau gorau i blant. Yn 2016, lansiodd y rhaglen Cymunedau Plant, a ysbrydolwyd gan Barthau Plant Harlem yn Unol Daleithiau America. Mae wedi bod yn newid sylfaenol o set o raglenni cwbl wahanol i’w gilydd i grŵp llai o fentrau sydd wedi’u gwreiddio mewn cymunedau unigol.



Achub y Plant y DU

“Gallen ni gyd-ddylunio rhaglen grantiau argyfwng, gan gyrraedd teuluoedd yn uniongyrchol.”

**Natsayi Sithole,
Achub y Plant y DU**

Profwyd gwerth y dull yn ystod Covid-19. “Roedd y gwaith paratoi a wnaethon ni, yn y cymunedau yr ydyn ni’n gweithio ochr yn ochr â nhw, wedi caniatáu inni ymateb yn gyflym iawn, iawn yn ystod y pandemig,” meddai Natsayi. Dangosodd fod lleoliaeth yn gweithio: “oherwydd y dulliau newydd o weithio rhwng asiantaethau, gwasanaethau, ysgolion a chynghorau, roedden ni’n gallu cyd-ddylunio a rhoi ar waith rhaglen grantiau argyfwng o fewn ychydig o wythnosau, gan gyrraedd teuluoedd yn uniongyrchol trwy’r rhwydweithiau newydd hyn.”

Camu’n ôl a gwneud lle

Mae elusennau mawr wedi cael eu beirniadu am fwrw sefydliadau llawr gwlad llai i’r cysgod. Yn ystod y pandemig, mae Natsayi wedi gweld newid, gyda rhai sefydliadau mwy o faint “yn camu’n ôl, myfyrio, a cheisio gweithio tuag at ffordd newydd o weithredu.”

Mae hynny’n teimlo fel newid pwysig, yn gydnabyddiaeth o’r “cymysgedd amrywiol o sefydliadau yn y gymdeithas sifil.” Mae angen i elusennau mwy o faint ystyried beth mae hyn yn ei olygu, a gofyn iddyn nhw eu hunain: “Ydych chi’n deall safle eich sefydliad yn y cymysgedd hwn a’r pŵer sydd gennych chi?”

Efallai y bydd hyn yn arwain at gydnabod nad elusen sydd yn y sefyllfa orau i arwain ar faterion. “Gwyddom fod sefydliadau arbenigol yn fwy tebygol o weithredu’n ddwfn iawn mewn cymunedau, rhywbeth na all sefydliadau cenedlaethol fel Achub y Plant ei wneud â’r un dilysrwydd.” Yn hytrach, gall elusennau mwy o faint gynnig platfform a fydd yn galluogi eraill.

Mae angen i sefydliadau edrych ar eu rhagdybiaethau, ar y ffordd maen nhw’n meddwl yn ogystal â’r hyn maen nhw’n ei wneud. “Nid yw’n ddigon dymuno symud i’r cyfeiriad hwnnw,” meddai. “Mae’n rhaid ichi ddadansoddi’n feirniadol yr holl ymddygiadau sy’n mynd â chi i’r fan honno.”

Mae Natsayi yn dadlau dros gydweithredu gonest, gydag eglurder ynghylch “beth ddylai’r dynamig hwnnw fod, pa egwyddorion yr ydych chi’n cydweithio tuag atynt.” Rhaid i elusennau fod yn barod “i roi o’r neilltu ein huchelgeisiau ein hunain er lles y rhai yr ydyn ni’n ceisio gweithio gyda nhw neu’n ceisio eu cynorthwyo. Byddwch yn agored i wrando ar yr hyn mae’r partneriaid hyn wir ei eisiau a’i angen. A byddwch yn atebol iddyn nhw.”

Ni fydd y sgysiau hyn yn hawdd. Gall olygu “camu i ffwrdd o gyflawni’r mathau o waith mae eraill mewn sefyllfa well i’w wneud. Neu fynd ati i gryfhau sefydliadau eraill, drwy fabwysiadu ymagwedd fwy actifyddol at y ffordd yr ydyn ni’n gweithio gydag arianwyr. Dylen ni ddefnyddio ein llais a’n pŵer i sicrhau bod mwy o arian a seilwaith yno i sefydliadau arbenigol a bach ffynnu.” Mae hefyd yn golygu edrych ar faterion fel, “pwy sy’n siarad ar ran pwy – ac a ddylem ni fod yn siarad o gwbl!”

Ad-drefnu'r sector

Mae'r ymwybyddiaeth honno a'r ffocws ar leoliaeth "yn dadlau o blaid ad-drefnu'r sector elusennol yn sylfaenol." Mae'n symudiad a allai "achosi inni fod yn fwy effeithiol, gobeithio, yn decach yn ein harferion, ac yn fwy defnyddiol fel rhwydwaith ehangach yn y gymdeithas sifil."

Mae Natsayi yn ystyried ariannu teg yn "un o'r pethau pwysicaf" i fynd i'r afael ag ef. "Mae angen i arianwyr gydnabod bod eu hymddygiad a'u harferion yn dylanwadu ar ymddygiad sefydliadol mewn elusennau." Mae angen cadw hyn mewn cof wrth i sefydliadau gynllunio ar gyfer ymadfer a cheisio "cynnal rhai o'r pethau da sydd wedi dod allan o'r argyfwng hwn."

Cwestiwn pwysig arall yw "perthynas..." y sector "â'r wladwriaeth [...], â chwmnïau technoleg mawr - yr holl rymoedd enfawr yn ein cymdeithas a'r holl agweddau enfawr ar ein cymdeithas. Craffu'n wirioneddol ar sut yr ydyn ni'n cyfeirio'n hunain, a sut yr ydyn ni'n ymddwyn."

Mae'r argyfwng wedi amlygu anawsterau mwy hirdymor. "Un o'r pethau a achosodd y drafferth fwyaf yn ystod y pandemig oedd yr argyfwng o ran ariannu, hiliaeth ac arferion gwahaniaethol ynghylch sefydliadau dan arweiniad Pobl Dduon, Asiaidd, Lleiafrifoedd Ethnig a Ffoaduriaid (BAMER). Oherwydd Covid, daeth y materion hyn i'r amlwg, ac roedd yn anoddach eu hanwybyddu. Ac roedden nhw'n bellgyrhaeddol, ac yn cynnwys nid yn unig byd ariannu, ond hefyd yr holl elusennau hefyd."

Mae'n nodi rhybudd yr **Ubele Initiative** ym mis Ebrill 2020 na fyddai naw o bob deg sefydliad bach a micro-sefydliad dan arweiniad BAME yn goroesi tri mis cyntaf y cyfyngiadau symud heb gymorth. "Os ydyn ni'n gadael iddyn nhw ddiflannu, neu fynd i argyfwng a dihoeni, mae'n tynnu i ffwrdd rhwyd diogelwch bwysig i gynifer o bobl."

Ac, mae'n nodi, mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu ein dewisiadau ehangach. "Mae peidio ag unioni'r annhegwch hirsefydlog hwn o ran ariannu a buddsoddiad cymdeithasol yn dweud llawer am yr hyn yr ystyriwn yn werth ei warchod a'i ddiogelu, a phwy. Beth sydd ysgogi'r penderfyniadau hyn, a beth mae peidio â gweithredu yn ei olygu i'r hyn mae'r sector yn sefyll amdano mewn gwirionedd?"

Rhaid inni siarad am ariannu

"I sefydliadau cymunedol a bach, mae'n anodd trafod gwytnwch heb drafod ariannu." Mae elusennau'n dibynnu ar arian er mwyn goroesi, ond hefyd ar gyfer hyblygrwydd. Mae Natsayi yn canmol sefydliadau a allai "droi yn fwy esmwyth at ymateb" yn ystod y pandemig, gan droi o ochr gorfforaethol eu sefydliadau i ganolbwyntio ar eu buddiolwyr.

"Mae cynllun peilot newydd Achub y Plant y DU, Ymchwilio, Chwarae, Dysgu, yn Sheffield yn cynorthwyo plant sydd mewn perygl o syrthio ar ôl o ran cyfathrebu.

"Mae fy mhlentyn hynaf yn ei hoffi ac wedi dechrau darllen i'r babi," dywedodd un rhiant.

Mae'r cynllun bellach yn cael ei roi ar waith mewn rhannau eraill o'r ddinas.

Natsayi Sithole,
Achub y Plant y DU

Mae'n tynnu sylw at sefydliadau ag adnoddau da sydd ag adrannau codi arian a thimau datblygu busnes datblygedig sy'n "caniatáu iddyn nhw arbrofi – hyd yn oed ar adegau anodd iawn." Sut all y byd ariannu helpu sefydliadau llai o faint i wneud yr un peth?

"Mae angen ychydig o ail-feddwl: bod yn fwy ymatebol i'r hyn mae sefydliadau'n gwybod y maen nhw ei angen, yn hytrach na'r hyn mae arianwyr yn tybio y maen nhw ei angen. Dwi'n meddwl ei bod yn bwysig iawn newid y berthynas rhwng arianwyr a derbynwyr grantiau, a darpar dderbynwyr grantiau, yn ogystal ag ail-feddwl am y ffordd yr ydyn ni'n asesu gwytnwch."

Dylai arianwyr "arwain ag ymddiriedaeth." Mae'n nodi'r "cylich ofnadwy" lle mae grŵp bach sy'n ymddangos yn llai gwydn yn llai tebygol o gael arian - sy'n ei wneud yn llai gwydn fyth. I fynd i'r afael â hyn, "Mae angen inni feddwl am arian seilwaith. Pa fath o seilwaith, ar draws y sector, fyddai'n caniatáu inni i gyd ymaddasu, er mwyn gallu cydweithredu'n llawer cyflymach ar draws ffiniau sefydliadau a gwasanaethau?"

"Roedd y gwaith paratoi a wnaethon ni, yn y cymunedau yr ydyn ni'm gweithio ochr yn ochr â nhw, wedi caniatáu inni ymateb yn gyflym iawn, iawn yn ystod y pandemig."

Natsayi Sithole,
Achub y Plant y DU

Amser i ail-feddwl

Mae'r pandemig yn aml wedi golygu gwneud pethau'n wahanol iawn - rhywbeth y gall y sector adeiladu arno. I Achub y Plant y DU, mae wedi cadarnhau pwysigrwydd y perthnasoedd sydd wedi cael eu meithrin mewn ardaloedd lleol. "Mae'r pandemig wedi bod yn brawf cysyniad damweiniol [...] Rydyn ni wedi profi, gyda'n partneriaid, yn yr amgylchiadau gwaethaf posibl, mai hyn mae'n ei gymryd i symud system tuag at weithio er budd eraill, nid er ein budd ein hunain." Mae'n cynllunio ymarferion gwranddo i gael gwybod ble ac a wnaeth Achub y Plant "gyflawni ei ochr o'r fargen" gyda'i bartneriaid lleol, "ein bod ni wedi ymddwyn gyda uniondeb - ac os na wnaethon ni, sut na wnaethon ni ddim? Wnaethon ni osod pethau arnyn nhw, yn hytrach na gweithio ochr yn ochr â nhw a gyda nhw?"

Mae effeithiau economaidd a chymdeithasol hirdymor Covid-19 yn dod i'r amlwg o hyd, a gwyddom fod elusennau'n wynebu mwy o anghenion. Mae Natsayi yn credu, "rydyn ni'n wynebu cyfnod hyd yn oed caletach. [...] Mae'n frawychus, ond mae hefyd hefyd yn gyfle inni ail-feddwl ac ad-drefnu ein hunain ar gyfer y realiti newydd hwn."

Mae'r stori'n parhau



[savethechildren.org.uk](https://www.savethechildren.org.uk)



Mae'r erthygl hon ar gael mewn fformat Hawdd ei Ddeall.

Mencap



Mencap

Sgwrs gydag Edel Harris a Ciara Lawrence

Trawodd Covid-19 rai grwpiau a chymunedau'n galetach na'i gilydd. Canfu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fod perygl marwolaeth oherwydd y coronafeirws 3.7 gwaith yn uwch ymysg pobl ag anabledd dysgu.

Cafodd llawer ohonynt eu gwahanu o'u cymorth a chysylltiadau arferol. Clywn oddi wrth Edel Harris, prif weithredwr yr elusen anableddau dysgu Mencap, a Ciara Lawrence, swyddog gwybodaeth sydd bellach wedi ymuno â thîm strategaeth yr elusen.

Esbonio'r cyfyngiadau symud i bawb

Mae Ciara, sydd ag anabledd dysgu, yn siarad yn angerddol am effaith Covid-19 ar bobl anabl. "Does dim digon o wybodaeth dda a hygyrch wedi bod ar gael. Mae llawer o bobl wedi bod yn ymdopi heb eu cymorth gofal cymdeithasol arferol, felly maen nhw heb gael help i deall y canllawiau."

Oherwydd bod pobl ag anableddau'n efallai'n fwy agored i niwed o Covid-19, mae'n hanfodol iddyn nhw allu deall y canllawiau, sydd wedi newid neu wedi cael ei ddiweddarau'n aml. Ond nid yw pawb yn cael y cymorth i wneud hynny.

“Pan ddechreuodd y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud, doeddwn i ddim yn deall beth oeddwn i’n cael ei wneud,” esbonia Ciara. “Cymerodd lawer o waith gan fy mam – yn rhithwir, ar y ffôn a thrwy e-bost – yn ceisio ei esbonio imi.”

Datblygodd sefydliadau anabledd gyngor hygyrch, gan gydweithio er mwyn osgoi dyblygu gwaith. Esbonia Edel: “Yn hytrach na bod pawb yn ei wneud, daethon ni at ein gilydd a gweithio allan pwy oedd yn y sefyllfa orau, pwy oedd â’r gallu neu’r adnoddau i arwain y gwaith hwnnw.”

Mae 1.5 miliwn o bobl

yn byw gydag anabledd dysgu yn y Deyrnas Unedig.

Yn Mencap, creodd Ciara weithgor deunyddiau hawdd eu deall i ddatblygu canllawiau gwell. “Cymeron ni’r dogfennau, aethon ni trwyddyn nhw, dywedon ni, ‘ydy hwn yn hawdd ei ddeall? Ydy’r lluniau’n iawn? Ydyn nhw’n gwneud synnwyr? Ydy’r testun yn rhy hir? Oes yna eiriau hawdd? Rydyn ni’n gwneud yn siŵr bod popeth mor hygyrch ag sy’n bosibl. Oherwydd os ydyn ni’n rhoi rhywbeth ar ein gwefan, mae ein henw da yn y fantol.”

Mae’n cydnabod bod gan y gynulleidfa anghenion a hoffterau gwahanol. “Mae 1.5 miliwn o bobl yn byw gydag anabledd dysgu yn y Deyrnas Unedig,” medd Ciara. “Dim ond un person ydw i. Ond os ydw i’n gweithio gyda llawer o bobl wahanol, gallwn wneud yn siŵr ei fod yn iawn i bawb.

“Mae’r grŵp hwnnw wedi bod mor bwerus, maen nhw wir wedi helpu i sicrhau newid. Nawr mae Mencap yn ystyried sut y gallai ei ddefnyddio yn y dyfodol, sy’n wych.”

Llais clir i’r sector

I Edel, mae eglurder a chydweithrediad yn hanfodol i’r ffordd mae’r sector yn siarad drosto ei hun a dros y rhai mae’n eu cynorthwyo. “Dwi ddim yn meddwl bod gan y sector elusennol un llais, yn enwedig yn Lloegr,” mae’n dadlau.

Mae’n cymharu’r hyn a’i blynyddoedd o weithio yn yr Alban, lle “roedd gan y trydydd sector lais, roedd yn rhan o’r drafodaeth. Ond mae gennym gynifer o gymdeithasau masnach, cyrff cynrychioliadol... mae Covid wedi amlygu hyn: rydyn ni i gyd yn siarad â’r un bobl, yn ceisio lobio a newid pethau, ac rydyn ni i gyd yn baglu ar draws ein gilydd.”

Sut mae Edel yn cysoni hynny â’r angen i gydnabod amrywiaeth y sector, sydd â chynifer o safbwyntiau a barnau gwahanol?

“Pe bai gen i ateb un frawddeg i hynny, byddwn i’n debyg o fod yn gyfoethog iawn! Mae cynifer o sefydliadau cymunedol ac elusennol gwych, sy’n darparu’r cyfrwng i’r mater sydd o bwys iddyn nhw neu lais grŵp o bobl gael ei glywed. Dydych chi ddim eisiau colli hynny. Ond dwi’n meddwl mwy am fod yn rhan o ymateb cenedlaethol. Dwi’n meddwl yn fwy strategol wrth feddwl am un llais i’r sector.


“Gofynnwyd inni gymryd rhan mewn llawer o gyfarfodydd a fforymau a grwpiau gorchwyl. Maen nhw i gyd wedi bod yn berthnasol ac yn bwysig; ac eto, pan ewch i'r cyfarfod, yr un hen wynebau a welwch o gwmpas y bwrdd. Mae'n lle llawn iawn.” Mae'n gofyn iddi ei hun sut y gall y sector elusennol ddod yn bartner cyfartal yn y broses o benderfynu ar ymateb cenedlaethol i argyfwng, yn yr un modd ag y mae'r GIG, awdurdodau lleol a'r llywodraeth yn cydweithio ar y lefel strategol honno.

Gweledigaeth a gwerthoedd

Mae Edel yn chwilio am fath arall o eglurder hefyd. “Diben clir – gweledigaeth a set o werthoedd. Pan dynnwch chi bopeth arall i ffwrdd, dyna beth sy'n eich dal yn sefydlog wrth ichi ymateb i argyfwng.” Dechreuodd Mencap weithio ar strategaeth newydd ar ddechrau 2020, cyn y pandemig. Mae Covid-19 “wedi cyflymu'r broses honno o feddwl.”

Beth yw'r weledigaeth? “I'r Deyrnas Unedig fod y lle gorau i fyw bywyd hapus ac iach os oes gennych anabledd dysgu.” Mae Mencap yn gweithio i “wrando ar bobl ag anabledd dysgu, cael ei arwain ganddyn nhw go iawn”, a “mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio llawer mwy ar gymunedau a phartneriaethau o wneud pethau yn y dyfodol.” Mae hynny'n golygu cydnabod y bydd sefydliadau partner weithiau “mewn lle gwell i sicrhau'r effaith rydyn ni eisiau ei gweld.”

Mae'n awyddus i leihau cymhlethdod “yn y ffordd y mae elusennau'n cael eu llywodraethu ac yn gweithredu, y ffordd rydyn ni'n denu arian, y ffordd rydyn ni'n mesur effaith - mae llawer o aneffeithlonrwydd.” Yn ystod y pandemig, “rydyn ni i gyd wedi dangos y gallwn weithio mewn ffordd wahanol. Ac weithiau, dwi'n meddwl ein bod ni'n gor-gymhlethu pethau.”



“I mi, mae'n bwysig iawn bod pobl yn cyfarfod â phobl ag anabledd dysgu ac yn siarad â nhw yn iawn, dod i'w hadnabod, clywed eu storïau. Mae hynny'n gwneud newid pwerus.”

Ciara Lawrence, Mencap

Mae'n chwilio am "y math o ddiwylliant sy'n caniatáu ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn modd ystyrlt [...] fel bod y penderfyniadau mae angen eu gwneud yn y foment honno yn cael eu gwneud gan y bobl sydd yn y sefyllfa orau i'w gwneud – a thrwy hynny tynnu i ffwrdd llawer o haenau o hierarchaeth a biwrocratiaeth."

Ac i Mencap yn benodol, mae diwygio gofal cymdeithasol yn flaenoriaeth "ar bob lefel strategol. Os ydyn ni'n cyrraedd diwedd yr argyfwng hwn ac rydyn ni heb achub ar y cyfle i werthfawrogi'r proffesiwn gofal cymdeithasol, i'w weld yn sector y dylid buddsoddi ynddo, nid fel un sy'n faich ar y pwrs cyhoeddus, dylai fod cywilydd arnom ni."

Yn 2020/21, cyhoeddodd Mencap **69 o ganllawiau hawdd eu deall** ar bopeth o ganllawiau diweddaraf y Llywodraeth i iechyd meddwl a lles meddyliol.

Cafodd ei hyb gwybodaeth am Covid-19 **30,660 o ymwelwyr unigol**, a dyblodd maint y gymuned ar-lein o 1,668 o ddefnyddwyr i 4,278.

Gwerthfawrogi'r arbenigwyr

Mae Ciara yn nodi bod gan bobl ag anabledd dysgu syniadau gwerthfawr i'w cyfrannu. "Gallan nhw ddweud wrthy ch chi am eu profiadau o'u ceg eu hunain. Ac mae'n helpu pan maen nhw'n codi llais.

"I mi, mae'n bwysig iawn bod pobl yn cyfarfod â phobl ag anabledd dysgu ac yn siarad â nhw yn iawn, dod i'w hadnabod, clywed eu storïau. Mae hynny'n gwneud newid pwerus."

Yn ogystal â chydabod profiadau pobl ag anabledd dysgu, byddai hyn yn agor i fyny sgiliau a thalentau. "Mae ganddyn nhw gymaint i'w roi. Gallan nhw roi ichi hyfforddiant, arbenigedd a chyingor."

Erbyn hyn mae pobl yn cysylltu â hi trwy'r cyfryngau cymdeithasol. "Nawr eu bod nhw'n gwybod fy mod i yno. Fi yw'r arbenigwr ar anabledd dysgu, fi yw'r arbenigwr ar ddeunyddiau hawdd eu deall, dwi'n gallu eu helpu nhw.

"Felly mae'n fater o, dewch i ni i gyd weithio gyda'n gilydd. Dewch at y bobl ag anabledd dysgu, siaradwch â ni, dewch i gyfarfod â ni. A byddan nhw'n dysgu o'n profiad beth mae angen iddyn nhw ei wneud i wella pethau."

Mae'r stori'n parhau

Mae fersiwn Hawdd ei Ddeall o'r dudalen hon ar gael. Hefyd gellir ei lawrlwytho fel dogfen PDF:

[Mencap Easy Read](#) (PDF 978 KB)



mencap.org.uk



Turn2us

Sgwrs gyda Thomas Lawson




Thomas Lawson yw prif weithredwr Turn2us, elusen genedlaethol sy'n darparu cymorth ymarferol i bobl sy'n cael trafferth i ymdopi'n ariannol. Trwy gydol y sgwrs, mae'n pwysleisio pwysigrwydd cyd-gynhyrchu, amrywiaeth a chynhwysiant. Iddo ef, mae cysylltiad agos rhyngddyn nhw: bydd dod â nhw ynghyd "nid yn unig yn gwella ein heffaith yn ddirfawr, ond hefyd yn gwella'n ddirfawr ein dilysrwydd i gael dylanwad."

Yr hyn a ddatgelwyd gan y pandemig

Yn yr argyfwng, gwelodd Thomas "gymuned ar ôl cymuned, stryd ar ôl stryd, yn sefydlu grwpiau WhatsApp, a dangos y math o weithredu cymunedol mae ein sector bob amser yn gobeithio amdano." Mae'n tynnu sylw at y stryd fawr, "lle roedd staff mewn siopau'n mynd ymhell y tu hwnt i'w rolau i gynorthwyo pobl leol. Dwi'n credu bod ein sector ni wedi tyfu o'r meddylfryd hwnnw, ac yn cyfrannu ato hefyd."

"Rhaid i'r sector feddwl llawer yn ehangach am ei bartneriaid."

Thomas Lawson, Turn2us



O bobl sy'n byw gydag aelod o'r teulu sydd ag anabledd yn profi caledi ariannol.

Mae eisiau i sefydliadau cymunedol wneud mwy i gysylltu â gweithredu ar lawr gwlad. Os yw'r wybodaeth orau a'r cysylltiadau gorau yn aml yn hyperleol, sut all y sector "leoleiddio ein gweithgarwch hyd yn oed yn fwy? Sut allwn ni werthfawrogi'n ddidwyll ac yn ystyrion cyfoeth sefydliadau hyperleol, yn hytrach na'u gweld fel partner yn y broses gomisiynu?"

Mae'n canmol cyflymdra'r sector wrth ymateb i'r cyfyngiadau symud ac ail-feddwl eu gwasanaethau. Daeth sefydliadau hyfforddi wyneb i wyneb o hyd i "ffyrdd newydd o sicrhau effaith na fydden nhw wedi gallu ei chael yn yr ystafell. Mae dyfeisgarwch pobl wedi bod yn gryf iawn, iawn, a dylen ni deimlo'n falch iawn o hynny."

Ond gall gwaith ar-lein ddal i rannu'r "rhaid mae mynediad digidol ganddyn nhw a'r rhaid nad yw ganddyn nhw". Rhaid rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â hyn, er, mae'n cydnabod, "mae ein sector yn dlawd iawn yn ddigidol. Rydyn ni'n tueddu i fod ar ei hôl yn hynny o beth."

Dal ein hunain i gyfrif

Mae'r gwahaniaethau mawr yn effeithiau iechyd ac economaidd y pandemig, ynghyd â marwolaeth George Floyd a dylanwad mudiad Mae Bywydau Du o Bwys, wedi tynnu sylw at anghydraddoldeb. "Mae byrddau'r cant o elusennau mwyaf yn llai amrywiol na byrddau cwmnïau'r FTSE 100," nodai Thomas. "Mae gennyn ni sector nad yw'n cynrychiadol o'r bobl y mae ein sector yn bodoli er eu mwyn."

Mae'n falch o weld mwy o sylw'n cael ei roi i "hiliaeth sefydliadol, braint pobl Wyn a chamweithrediadau systemaidd. Mae sefydliad ar ôl sefydliad ar ôl sefydliad wedi dal ei hun i gyfrif, o arianwyr i bartneriaid cyflawni. Dwi'n meddwl bod hynny'n bwysig iawn" – er ei fod yn dyheu am i'r daith honno fynd "llawer ymhellach a llawer yn gynt."

Mae'n gweld angen taer am leisiau pobl anabl. "Mae 47% o'r bobl sy'n byw mewn teulu ag aelod anabl o'r teulu yn dioddef caledi ariannol {...} Wel, mae hynny'n ddiffyg enfawr, sylweddol yn nyluniad ein heconomi a'n system nawdd cymdeithasol – ac yn rhywbeth y dylen ni deimlo cywilydd mawr amdano."

"Felly ble mae lleisiau pobl anabl yn y prif sefydliadau i bobl anabl? Roeddwn i'n arfer gweithio i Ymddiriedolaeth Terrence Higgins, a gafodd ei arwain yn bennaf gan ac ar gyfer pobl oedd yn byw gyda HIV, yn marw o HIV neu'n cael profedigaeth o'i herwydd. Pam nad yw'r un peth yn wir am elusennau i bobl anabl?"

“Chwalodd fy rhagfarnau ynghylch yr hyn yr oedd pobl ag anableddau dysgu’n gallu eu gwneud ac yn methu eu gwneud.

Thomas Lawson, Turn2us

Roedd Thomas yn ymddiriedolwr i Heart n Soul, elusen cynhyrchu celfyddydau i bobl anabl. “Roedd pobl ag anableddau dysgu ar y bwrdd - ac roedd yn un o’r byrddau mwyaf gweithredol dwi wedi bod arnyn nhw erioed. Chwalodd fy rhagfarnau ynghylch yr hyn yr oedd pobl ag anableddau dysgu’n gallu eu gwneud ac yn methu eu gwneud. Felly dwi’n credu bod angen inni ddechrau mynnu - a dwi’n meddwl y dylai’r Loteri ddechrau mynnu - cyd-gynhyrchu o lefel y bwrdd trwodd i gyflenwi trwodd i ddylunio trwodd i werthuso trwodd i ddatblygu rhaglenni.”

Partneriaid newydd ac amrywiol

Mae’r tarfu a achoswyd gan y pandemig wedi gorfodi ein cymdeithasau i wneud newidiadau sylfaenol. “Gyda phopeth mor ansicr, mae yna gyfle, a dylen ni wneud yn fawr ohono. Mae meddwl rhagorol ar gael - rhwydwaith Better Way, y mudiad Ailgodi’n Gryfach. Dwi’n meddwl y dylen ni gael ein harwain mwy a mwy gan gymunedau, a llai a llai gan hierarchaeth.”

Mae’n canmol gweithio mewn partneriaeth, ond mae eisiau mynd â hyn ymhellach. “Yn aml, caiff y partneriaethau hyn eu harwain gan gyfleoedd ariannu. Ond mae’r sector yn gwneud camgymeriad os yw’n meddwl ei fod yn gweithredu ar ei ben ei hun.” Ynghyd â gwasanaethau statudol, mae’n tynnu sylw at waith cwmnïau, fel staff y stryd fawr yn cynorthwyo eu cymunedau.

“Rhaid i’r sector feddwl yn ehangach o lawer am ei bartneriaid, a pheidio â bod yn snobyddlyd am bwy rydyn ni’n gweithio â nhw.” Dylen ni ofyn pwy sy’n cael yr effaith orau, nid o ba sector mae’n dod.

Mae’n cwestiynu mecanweithiau’r sector. “Weithiau mae dyngarwch yn rhan o’r broblem. Yn hytrach na thalu treth, gall bobl gael rhyddhad treth ar eu rhoddion. Mae hynny’n cynnwys sefydliadau fel Prifysgol Rhydychen, ysgolion preifat, y Tŷ Opera Brenhinol. Nid yw’r dreth yn mynd i’r Trysorlys, mae’n cael ei rhoi i’r sefydliadau hynny fel rhyddhad treth. Felly rydyn ni’n ildio i’r union sefydliadau sy’n gwarchod braint, trethi y gellid eu dosbarthu i wasanaethau cymdeithasol y gwyddon ni nad oes ganddyn nhw ddigon o arian. Felly beth yw strwythur y ffordd mae’r sector yn gweithio, y ffordd y caiff ei ariannu, sy’n bytholi dyluniad camweithredol yr economi a braint?”

“Nid ydyn ni mewn sefyllfa hyd yn oed i sôn am broblemau byrddau amrywiol mewn cwmnïau, **oherwydd mae ein byrddau ni’n llai amrywiol.**”

Thomas Lawson, Turn2us



Ad-drefnu ein perthynas â phŵer

Yn fwy cyffredinol, mae'n dadlau bod rhaid i'r sector "ad-drefnu'r ffordd y mae'n gweithio" ar anghydraddoldebau. "Os nad ydyn ni'n ymateb mewn modd arwyddocaol, nid yw'r sector hwn mewn sefyllfa i ddal gweddill y gymdeithas i gyfrif. Nid ydyn ni mewn sefyllfa hyd yn oed i sôn am broblemau byrddau amrywiol mewn cwmnïau, oherwydd mae ein byrddau ni'n llai amrywiol."

Golyga hyn fod yn "dra-ymwybodol" o bŵer. "Dwi'n meddwl bod pobl yn tueddu i feddwl am bŵer fel pe bai'n gacen - 'os byddaf i'n ildio rhywfaint o'r gacen, bydd llai o'r gacen gen i' - yn hytrach na deall os ydyn ni'n rhannu pŵer, mae'r pŵer yn tyfu.

"Yn amlwg, dwi'n sôn am fraint pobl Wyn. Pan dwi'n cael fy ngwahodd i siarad am rywbeth, a oes lleisiau amrywiol eraill sydd hefyd yn cael y cyfle i siarad? Os nad oes, ddylwn i ddim siarad, a dylai'r lle hwnnw fynd i rywun arall. Trwy wneud hynny, mae'r gymdeithas yn dod yn iachach ac mae mwy o bŵer ar gael i bawb ohonom ni. Byddwch yn ymwybodol iawn bod y pŵer hwn yn bodoli, peidiwch ag esgus nad yw'n bodoli. Pan fyddwn ni'n ymwybodol ohono, gallwn weithio allan sut i ymddwyn."

“Rydyn ni'n bodoli i wasanaethu'r bobl y sefydlwyd ein sefydliadau ar eu cyfer, nid ar gyfer y staff, nid ar gyfer y bwrdd.”

Thomas Lawson, Turn2us



Turn2us

Ei bwynt olaf yw galw am "dryloywder sy'n cynyddu o hyd. Ynghylch cyflogau, dulliau recriwtio, fel y gall pobl bob tro herio'r ffordd mae un o'n helusennau wedi ymddwyn. Rydyn ni'n bodoli i wasanaethu'r bobl y sefydlwyd ein sefydliadau ar eu cyfer, nid ar gyfer y staff, nid ar gyfer y bwrdd."

A dylai hynny fod yn wir ledled y sector. "Mae angen inni wneud ein hunain yn fwy agored, yn fwy gweladwy, yn fwy tryloyw."

Mae'r stori'n parhau



turn2us.org.uk



Citizens UK

Citizens UK

Sgwrs gyda Matthew Bolton, Salma Ravat a Fiona Tasker



Mae sefydliad Citizens UK yn addysgu sgiliau trefnu cymunedol i bobl leol, gan weithio trwy 16 o gynghreiriau dinasyddion yng Nghymru a Lloegr. “Ein cenhadaeth yw meithrin gallu pobl o ardaloedd difreintiedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus,” esbonia’r Prif Swyddog Gweithredol Matthew Bolton. Y rheol haearnaidd yw “peidiwch byth â gwneud dros bobl eraill yr hyn y gallan nhw ei wneud drostyn nhw eu hunain.”

Dod yn gyffyrddus gyda phŵer

Mae dod o hyd i arweinwyr lleol a’u hyfforddi yn eu helpu i gydweithio “i ganfod problemau cyffredin, a bod â’r pŵer a’r hyder a’r sgiliau i fynd i’r afael â’r problemau hyn,” esbonia Matthew. “Mae angen rhywfaint o bŵer arnoch i greu newid [...] i ddeall sut mae pŵer yn gweithio, sut y caiff penderfyniadau eu gwneud ynghylch y pethau sy’n bwysig ichi.” Ond gall pobl fod yn nerfus ynghylch pŵer, yn enwedig os nad ydyn nhw wedi bod â llawer ohono yn y gorffennol.

Mae'r arweinydd lleol Fiona Tasker wedi wynebu "rhai adegau tywyll iawn" yn ystod ei bywyd. Cafodd ei chynorthwyo gan **ReCoCo**, sefydliad sy'n aelod o Citizens UK, sy'n cynnig ymadfer iechyd meddwl dan arweiniad cymheiriaid, ac sydd bellach yn helpu i ofalu am ei grŵp o fyfyrwyr. I ddechrau, nid oedd hi'n meddwl bod hyfforddiant arweinydd Citizens UK yn iawn iddi hi: "Mae'n well gen i fod yn y cefndir." Ond pan ddywedodd yr hyfforddwr, 'Ystyr bod yn arweinydd yw bod â dilynwyr,' roeddwn i'n gwybod bod gen i ddau neu dri. Pe bawn i'n mynd allan i ddigwyddiad oedd yn ceisio gwneud gwahaniaeth, bydden nhw'n dod gyda fi. Felly sylweddolais i efallai fy mod i'n arweinydd."

Roedd sylweddoli hynny "wedi rhoi i mi ychydig mwy o hyder a chred ynof i fy hun", ac ymunodd â thîm gweithredu iechyd meddwl Citizens Tyne & Wear.

Mae ymgyrch Cyflog Byw Citizens UK wedi ennill mwy na

£1.3 biliwn

o gyflogau gwell i weithwyr ar gyflogau isel.

Gwrando ar y gymuned

Mae ymgyrchoedd gwrando'n rhan allweddol o waith Citizens UK, yn ffordd o ganfod a deall blaenoriaethau pobl leol. Wrth i bobl fel Fiona gynnig eu hunain a magu hyder, mae Citizens UK yn eu helpu i weithio ar ymgyrchoedd sy'n bwysig iddyn nhw.

"Rydych chi'n siarad â'r bobl rydych yn eu cynorthwyo, sy'n aelodau o'ch sefydliad," esbonia Salma Ravat, rheolwr elusen i bobl ddigartref, **One Roof Leicester**. Mae'n canolbwyntio ar wrando ar stori'r person arall: y pethau mae'n frwdfrydig amdany'n nhw, sy'n ei symbylu ac sy'n peri pryder iddo. Gallai fod yn fater lleol, fel dylanwadu ar gyngor bwrdeistref ynghylch mynediad i barciau, neu fentrau mawr dros newid cymdeithasol. Sefydlwyd yr ymgyrch Cyflog Byw gan Citizens UK yn 2001 ac mae wedi ennill mwy na £1.3 biliwn o gyflogau gwell i weithwyr ar gyflogau isel.

Ar ddechrau'r pandemig, cynhaliodd ymarfer gwrando cyflym i ddeall beth oedd ar feddyliau pobl. "Oherwydd bod yr ymgyrch gwrando'n rhan mor annatod o'r ffordd yr ydyn ni'n gweithio, roedd y math hwnnw o addasu'n awtomatig [ac] mor berthnasol i'r argyfwng yr ydyn ni'n ei wynebu," esbonia Matthew.

Mewn lleoedd "lle roedden ni wedi bod yn gweithio ers amser, a bod perthnasoedd da o ymddiriedaeth rhwng ein haelodau a'n staff, cyflymodd y gweithgarwch." Canfuodd fod yr ymgyrch cyflog byw yn taro deuddeg gyda gweithwyr gofal, "a oedd allan mewn amgylchiadau anodd iawn, heb y Cyfarpar Diogelu Personol cywir, ond heb gyflog digonol o hyd." Mewn lleoliadau newydd, neu le roedd staff allweddol wedi newid yn ddiweddar, "roedd ymaddasu'n gyflym i'r problemau oedd yn newid llawer iawn, iawn yn anoddach."

Creodd y pandemig ddiddordeb newydd mewn gwaith cymunedol, yn enwedig y twf sydyn mewn grwpiau cyd-gymorth: “ysgogiadau da, llawer o bobl, llawer o egni,” medd Matthew. “Yn ein profiad ni mae’r rhan fwyaf o hyn wedi chwalu, ac nid yw hynny’n syndod.” Ei ddatrysiad fyddai cydbwysu lleisiau newydd a grwpiau sy’n bodoli eisoes. “Mae mor bwysig bod yna gymdeithasau a sefydliadau lleol cynaliadwy sy’n gallu cadw’r gwaith caled i fynd. Os gallan fod yn agored, a chrosawu a chysylltu â rhywfaint o’r egni newydd sy’n mynd a dod, bydd hynny’n eu cadw’n ffres, a’u cadw’n effeithiol.”

Mae’n sôn am ysgol gynradd yn gweithio gyda’r mosg lleol, canolfan menywod â phrifysgol, ac yn dadlau bod y pandemig wedi helpu i ddeffro “rhywbeth sydd eisoes yn bodoli: awydd i weld ysgolion fel cyfryngau newid cymdeithasol yn eu hardaloedd, yn ogystal â lleoedd o ddysgu a phroffion ac arholiadau. Mae potensial ysgolion fel canolfannau gweithgarwch dinesig a gwasanaethau ehangach yn gyfle enfawr i ni i gyd.”

Cafwyd

33,000

o godiadau cyflog newydd ers mis Tachwedd 2020

20,000

a aeth i weithwyr allweddol gan gynnwys mwy na

5,000

ym maes gofal cymdeithasol

Mae gwaith Citizens UK yn seiliedig ar leoedd, ond mae’r pandemig wedi hybu edrych ar rwydweithiau cenedlaethol yn ogystal â chysylltiadau lleol. Mae 75 o ysgolion cynradd yng Nghymru a Lloegr yn aelodau. “Beth sydd ganddyn nhw yn gyffredin? Beth pe baem ni’n dod â nhw ynghyd i siarad am y ffordd maen nhw’n defnyddio trefnu i feithrin hyder pobl ifanc, y ffordd mae’r peth prydau ysgol am ddim yn effeithio arny’n nhw. Rydyn ni wedi dechrau rhannu’r dysgu ar draws ein rhwydwaith, fesul sector. Daw budd mawr o hynny yn y tymor hir.”

Mae Salma’n cytuno: “Cyn Covid, doedden ni ddim yn ymwneud llawer ar lefel genedlaethol sefydliad Citizens” ond mae wedi gweld budd gwirioneddol o gymryd rhan mewn cyfarfodydd cenedlaethol, oherwydd “rydych chi’n sylweddoli nad chi yw’r unig un sy’n wynebu’r problemau hynny.”

“Rydych chi’n cael y cyfle i ddarganfod sut maen nhw wedi dod o hyd i ddatrysiad, sut maen nhw wedi dwyn aelodau gwahanol o’r gymuned ynghyd, sut mae’r gweithgarwch hwnnw gan y bobl mae’n effeithio arny’n nhw wedi sicrhau newid parhaus,” meddai Salma. “I mi, mae’n rymusol iawn. Dwi wrth fy modd â’r ffaith mai pobl a’u storïau yn cael eu hadrodd yw hyn, ac mai hynny sy’n cael yr effaith.”

Cydbwysu ymatebolrwydd a ffocws

Mae Matthew yn nodi “un o’r agweddau eraill ar yr ethos gwranddo ac ymatebolrwydd – mae’n bwysig blaenoriaethu.” Wrth edrych yn ôl, byddai wedi hoffi “canolbwyntio ymdrechion ar ychydig o fai meysydd allweddol”, yn hytrach na cheisio gwneud cynifer o bethau gwahanol. Ac er bod Citizens UK yn bartneriaeth fawr o aelodau, mae’n credu y gallai fod wedi gwneud mwy i sefydlu partneriaethau gyda sefydliadau allanol.

Mae hyblygrwydd yn gwella ymateb: bydd sefydliadau "sy'n rhoi pobl ar y blaen, sy'n gallu gwrandao ac addasu, mewn lle gwell wrth i bethau newid. Ond mae'n fater o wytnwch ariannol hefyd." Roedd Citizens UK yn ffodus i ennill ffrydiau incwm o ffynhonnell amrywiol o aelodau, gan gynnwys mosgiau, eglwysi, elusennau ac ysgolion. Cafodd arian grant annibynnol hefyd. Ac mae'r ddwy briodwedd yn gweithio gyda'i gilydd: "yr ymatebolrwydd a'r ystwythder, sicrhau ein bod ni'n deall y ffordd mae'r argyfwng hwn yn effeithio ar bobl o gefndiroedd difreintiedig" yn golygu bod Citizens UK "mewn lle da i gael arian a chymorth."

Rhaid i'r modd argyfwng ddod i ben

Mae'r perygl chwythu plwc yn un gwirioneddol. "Yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud, o fis Mawrth i fis Awst, roedd yr adrenalín, y brys, yr argyfwng yn golygu bod pawb yn gweithio fel lladd nadroedd," meddai Matthew. "Erbyn hyn, rydyn ni'n cydnabod nad yw hynny'n gynaliadwy."

O wrando ar staff a gwirfoddolwyr, roedd yn glir "bod rhaid i'r modd argyfwng ddod i ben. Efallai ein bod ni'n dal i wynebu argyfwng fel gwlad, fel cymdeithas, ond allwch chi ddim parhau mewn modd argyfwng fel sefydliad ac fel cyflogwr."

"Rydych chi'n sylweddoli nad chi yw'r unig un sy'n wynebu'r problemau hynny – mae pobl ledled y wlad yn wynebu'r un heriau neu rai tebyg iawn."

Salma Ravat, One Roof Leicester

Mae gan sefydliadau sy'n aelodau hyrwyddwyr iechyd meddwl ac yn cael eu hannog i gysylltu ag ymddiriedolaethau iechyd meddwl i lywio eu hymateb i Covid. Yn fewnol, mae gan y sefydliad gynllun gweithredu llesiant, ac mae'r rhaglenni cymorth i gyflogaion yn cynnwys cwnsela.

Mae'r sefydliad wedi cynnig cymorth ymarferol hefyd, fel oriau gweithio hyblyg sy'n caniatáu i aelodau o'r staff ollwng a chasglu plant o'r ysgol, neu wneud ymarfer corff yn yr awyr agored yn ystod y dydd. Mae'n bwysig cydnabod bod "pobl o dan bwysau gwahanol iawn. Mae profiad y rhai sydd â phlant yn gwbl wahanol i brofiad y rhai sy'n rhannu tŷ neu'n byw ar eu pen eu hunain."

Mae cyfathrebu a gwrandao'n hollbwysig. "Gallwch greu mentrau cadarnhaol o bob math, ond mewn gwirionedd yr hyn sy'n bwysig yw bodau dynol, yr hyn maen nhw'n ei glywed, y ffordd maen nhw'n teimlo."

Mae modelu'r ymddygiadau cywir yn hanfodol. "Mae'r hyn mae cyfarwyddwr yn ei ddweud mewn sefydliad, a'r ffordd mae'n ei ddweud, wir yn cyfrif." Byddai Matthew fel arfer yn dechrau cyfarfodydd tîm trwy ganmol gwaith a chodi egni. Yn ystod y pandemig, mae wedi bod "yn dechrau ychydig yn llai hyderus, ac yn fwy araf." Cafwyd adborth brwdfrydig, a staff newydd yn synnu i weld llesiant staff ar frig yr agenda. "Yn fy marn i, y mwyaf o sylw mae'r rhai ar y brig yn rhoi iddo, wedyn mae gan bawb ganiatâd i siarad amdano. Mae'n gallu llifo o'r fan honno."

Mae'r stori'n parhau



citizensuk.org

Beth nesaf?

Does dim terfyn llawn ar y pandemig. Lle'r oeddem unwaith yn gobeithio dod i ben yn gyfan gwbl, daeth yn amlwg y bydd dychwelyd i'r arfer yn raddol ar y gorau, wrth i ni wynebu effeithiau hirdymor y pandemig.

Gall deall yr hyn a weithiodd yn yr argyfwng helpu i lywio adeiladu yn ôl ac adfer. Er bod Covid-19 wedi amlygu problemau sy'n bodoli eisoes, mae'r ymateb wedi awgrymu ffyrdd newydd o fynd i'r afael â nhw. O dan bwysau enfawr, mae dulliau gwahanol wedi profi eu gwerth, o weithio hyperleol i gyfseriad newydd o bartneriaeth a chydweithredu, a phwysigrwydd hanfodol lleisiau mwy amrywiol wrth wneud penderfyniadau.

Gan edrych y tu hwnt i'r pandemig, byddwn yn parhau i rannu a dathlu tystiolaeth a dysgu o'n grantiau, gan ddangos effaith ein deiliaid grantiau a pharhau i hyrwyddo eu lleisiau. Rydym yn falch o rannu'r gwahaniaeth y mae ein grantiau yn ei wneud ac i ddangos sut mae ein gwaith yn helpu i uno a rhoi cyfle cyfartal mewn cymunedau ledled y DU.

Gallwch ddilyn ein cynnydd yn:
tnlcommunityfund.org.uk/insights

Os oes gennych syniad gwych a fydd yn cefnogi eich cymuned, rydym yma i chi. Dysgwch fwy am sut i wneud cais am grant yn:

[tnlcommunityfund.org.uk/welsh/funding/
thinking-of-applying-for-funding](https://tnlcommunityfund.org.uk/welsh/funding/thinking-of-applying-for-funding)

Mae'r cyhoeddiad hwn yn adrodd straeon personol am ddeiliaid grantiau ac yn rhannu enghreifftiau o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda i eraill. Nid yw unrhyw farn, meddyliau na barn a fynegir gan ddeiliaid grantiau a staff o reidrwydd yn cynrychioli meddyliau na barn Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ("y Gronfa"). Nid yw'r Gronfa yn cymeradwyo nac yn argymhell unrhyw sefydliad a grybwyllir, ac nid yw ychwaith yn cymeradwyo unrhyw gynnwys allanol sy'n gysylltiedig ag ef yn yr adroddiad hwn.

Ni ddylid cymryd cynnwys yr adroddiad hwn fel cyfarwyddyd, arweiniad na chyngor ac ni ddylech ddibynnu ar y wybodaeth yn yr adroddiad hwn fel dewis amgen i gyngor proffesiynol.

I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid yw'r Gronfa'n derbyn unrhyw gyfrifoldeb ac yn datgelu pob atebolrwydd i unrhyw drydydd parti sy'n honni ei fod yn defnyddio neu'n dibynnu am unrhyw reswm o gwbl ar yr adroddiad, mae ei gynnwys, ei gasgliadau, unrhyw ddarn, gwelliant ailgyflwyno a/neu addasiad gan unrhyw drydydd parti yn gwbl ar eu risg eu hunain. Nid ydym yn gwneud unrhyw sylwadau na gwarantau, boed yn rhai datganedig neu ymhlyg, bod cynnwys yr adroddiad hwn yn gywir, yn gyflawn neu'n gyfoes.

© hawlfraint y Goron 2021

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom i The National Lottery Community Fund, 1 Plough Place, London, EC4A 1DE, neu gallwch anfon e-bost atom ar knowledge@tnlcommunityfund.org.uk